



COFNODION CRYNO CYFARFOD PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIOGELWCH DIGIDOL – PREIFAT

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

🕒 14:45 – 16:15

📅 1 Chwefror 2024

📍 MS Teams

Yn Bresennol (Aelodau)	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
David Selway (Cadeirydd)	DS	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	IGDC
Marilyn Bryan-Jones	MBJ	Aelod Annibynnol	IGDC
Alistair Klaas Neill	AKN	Aelod Annibynnol	IGDC

Yn bresennol	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC
Jamie Graham	JG	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Seiberddiogelwch	IGDC
Rhidian Hurle	RH	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	IGDC
Julian Jones	JJ	Arweinydd Gweithredol Seiberddiogelwch	IGDC
Darren Lloyd	DL	Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion	IGDC
Sam Lloyd	SL	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	IGDC
Carwyn Lloyd-Jones	CLJ	Cyfarwyddwr TGCh	IGDC
Dave Parsons (ar gyfer eitem 3.4)	DP	Rheolwr Cod WASPI	IGDC
Rachael Powell	RP	Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodaeth, Deallusrwydd ac Ymchwil	IGDC

Cofnodion wedi'u cadarnhau ar gyfer y:
Pwyllgor Preifat ar Lywodraethu a Diogelwch Digidol 01 Chwefror 2024



Julie Robinson	JR	Cydlynnydd Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)	IGDC
Marcus Sandberg (ar gyfer eitem 3.4)	MSa	Uwch Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth	IGDC
Michelle Sell	MS	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a Phrif Swyddog Masnachol	IGDC
John Sweeney (ar gyfer eitem 3.3i)	JS	Rheolwr Llywodraethu Rhannu ac Integreiddio Gwybodaeth	IGDC
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol	IGDC
Matthew Wintle	MW	Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt – Gofal Eilaidd	IGDC

Ymddiheuriadau	Teitl	Sefydliad
Rowan Gardner	Aelod Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	IGDC
Rhidian Hurle	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	IGDC
Julie Ash	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	IGDC

Acronymau			
SHA	Awdurdod Iechyd Arbennig	DG&S	Llywodraethu a Diogelwch Digidol
IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
IM	Aelod Annibynnol	CTCI	Cynllun Tymor Canolig Integredig
NDR	Adnoddau Data Cenedlaethol	SCG	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
RISP	Caffael y System Gwybodeg Radioleg	WASPI	Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu
RHAN 1 – MATERION RHAGARWEINIOL			
1.1	Croeso a Chyflwyniadau Croesawodd David Selway, Aelod Annibynnol ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol (DS) bawb i'r sesiwn breifat ac estynnodd longyfarchiadau'r Pwyllgor i Jamie Graham a oedd wedi cael rôl newydd mewn sefydliad arall a hwn fyddai ei	Nodwyd	Dim i'w nodi



	gyfarfod Pwyllgor olaf.		
1.2	Ymddiheuriadau am Absenoldeb Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth: <ul style="list-style-type: none"> Rowan Gardner, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol 	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	Datganiadau o Fuddiannau Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau i'w nodi.	Nodwyd	Dim i'w nodi
<p>RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO</p> <p>Dosbarthwyd eitemau ar yr agenda gydsynio cyn y cyfarfod a nodwyd nad oedd y Cadeirydd wedi derbyn unrhyw sylwadau ymlaen llaw.</p>			
2.1	Cofnodion y cyfarfod diwethaf Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor a gynhaliwyd ar 02 Tachwedd 2023 fel cofnod cywir. Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: GYMERADWYO cofnodion y cyfarfod diwethaf	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
<p>RHAN 3 - PRIF AGENDA</p>			
3.1	Cofnod Gweithredu Roedd un weithred breifat ar y cofnod ac roedd hi bellach wedi'i chwblhau. Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: NODI'R Cofnod Gweithredu.	Nodwyd	Dim i'w nodi
3.2	Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch Cyflwynodd Jamie Graham, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Seiberddiogelwch (JG) Julian Jones, Arweinydd Gweithredol Seiberddiogelwch (JJ) a gyflwynodd yr Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch gan amlygu'r gwaith a gwblhawyd dros gyfnod Chwarter 3 yn y meysydd canlynol. <ul style="list-style-type: none"> Gosod Patsys Diogelwch Cael gwared ar SQL Server 2012 Profi treiddiad ac adferiad Efelychu gwe-rwydo IGDC Prosiect disodli SIEM 	Trafodwyd	Dim i'w nodi

Cofnodion wedi'u cadarnhau ar gyfer y:

Pwyllgor Preifat ar Lywodraethu a Diogelwch Digidol 01 Chwefror 2024



	<p>CAM GWEITHREDU:20240201-A01 Cyflwyno adroddiad diweddar ar brofion treiddio i'r cyfarfod nesaf.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</p> <p>DRAFOD yr Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch er SICRWYDD</p>		
3.3	<p>Y Gofrestr Risg Gorfforaethol</p> <p>Nododd Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd (CD) fod 19 o risgiau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar hyn o bryd, yr oedd 11 ohonynt i'w hystyried gan y Pwyllgor hwn. Roedd 4 ohonynt yn cael eu hystyried yn rhai preifat a byddent yn destun trafodaeth. Nodwyd y newidiadau canlynol i risgiau preifat a neilltuwyd i'r Pwyllgor hwn ers y cyfarfod diwethaf ym mis Mai fel a ganlyn:</p> <p>4 RISG WEDI'U DILEU **Preifat**</p> <ul style="list-style-type: none"> • DHCW0278 • DHCW0279 • DHCW0325 • DHCW0317 <p>Archwiliad Dwfn i risg DHCW0263 Swyddogaethau Data</p> <p>Roedd dwy risg wedi bod ar y gofrestr ers peth amser, fodd bynnag, nid oedd IGDC yn gwbl gyfrifol gan fod y risgiau'n gysylltiedig â sefydliadau eraill.</p> <p>DHCW0263 – Swyddogaethau IGDC a'i sail gyfreithlon i brosesu data i gyflawni'r swyddogaethau hynny.</p> <p>Trafododd y Pwyllgor y gyfraith a oedd yn berthnasol i Loegr ac a oedd ychydig yn ehangach na'r hyn a gynigiwyd yng Nghymru.</p> <p>Cadarnhaodd DL fod y broses wedi'i thynnu allan gyda'r risg wedi bod ar y gofrestr ers 10 mlynedd ac nad oedd y ddeddfwriaeth yn elfen alluogi.</p> <p>Trafododd y Pwyllgor yr effaith gafodd diffyg mynediad hawdd at ddata ar Ymchwil ac Arloesi o ran fforddiadwyedd. Bydd y ddeddfwriaeth angenrheidiol a'r hyn sydd ei angen i fod yn ei le er mwyn prosesu data yn pennu'r hyn y gellir ei gyflawni yn y maes hwn.</p> <p>Archwiliad dwfn i risg DHCW0320 Ymddiriedolaeth Dinasyddion a Rhanddeiliaid wrth Ddefnyddio Data Iechyd a Gofal Cymdeithasol</p> <p>Cyflwynodd DL yr Archwiliad Dwfn i risg DHCW0320 a chadarnhaodd, ynghyd â'r elfen ddata, fod yn rhaid i'r</p>	Trafodwyd	Dim i'w nodi

Cofnodion wedi'u cadarnhau ar gyfer y:

Pwyllgor Preifat ar Lywodraethu a Diogelwch Digidol 01 Chwefror 2024



	<p>risg hon fod mor dryloyw â phosibl gyda'r wybodaeth a oedd yn cael ei defnyddio a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd pan oedd yn lledaenu'r wybodaeth hon, roedd at ddefnydd gwerth gwasanaeth ac iechyd. Roedd y llywodraethu gwybodaeth ar hyn yn glir, yn gadarn ac yn dryloyw ac ni ddylai fod unrhyw beth annisgwyl i'r cyhoedd.</p> <p>Dywedodd John Sweeney, Rheolwr Llywodraethu Integreiddio a Rhannu Gwybodaeth (JS) y gallai fod angen ailysgrifennu'r risg gan fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r gwaith gael ei gyflawni ond heb ryddhau'r gyllideb i gyd-fynd â'r cais. Felly, roedd yn risg i Lywodraeth Cymru ond dylid ei chadw ar y gofrestr i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.</p> <p>Cadarnhaodd CD y byddai'r gyllideb ar gyfer cyfathrebu hyn i'r cyhoedd yn sylweddol ac y byddai angen arbenigedd allanol. Byddai dysgu o sut yr ymdriniwyd â hyn yn Lloegr yn cael ei gynnwys mewn.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</p> <p>DRAFOD y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r ddau Archwiliad Dwfn</p>		
<p>3.4</p>	<p>Adroddiad Terfynol Cod Ymddygiad WASPI</p> <p>Ymunodd ei gydweithwyr, Dave Parsons, Rheolwr Cod WASPI a Marcus Sandberg, Uwch Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth â Darren Lloyd, Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynigion i ddatblygu Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn God Ymddygiad cymeradwy gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG). • Mae gwella WASPI yn rhan o Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2023-2026. • Roedd Llywodraeth Cymru wedi croesawu'r cynnig i WASPI ddod yn God Ymddygiad wedi'i gymeradwyo gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gefnogi ac annog rhannu data ar draws y sector cyhoeddus. <p>Cadarnhaodd DL y byddai IGDC ymhlith un o'r sefydliadau cyntaf yn y DU i gyflawni Cod Ymddygiad cymeradwy sy'n cefnogi arferion rhannu gwybodaeth.</p> <p>Darparodd Dave Parsons, Rheolwr Cod WASPI (DP) yr amserlen ar gyfer y Cod Ymddygiad i fynd drwy'r broses sicrwydd ac amcangyfrifwyd y byddai'n cymryd tua 20 wythnos.</p>	<p>Nodwyd</p>	<p>Dim i'w nodi</p>

Cofnodion wedi'u cadarnhau ar gyfer y:

Pwyllgor Preifat ar Lywodraethu a Diogelwch Digidol 01 Chwefror 2024



	<p>Rhoddyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod cyllid wedi'i gadarnhau ar gyfer WASPI a bod yr holl gostau parhaus wedi bod yn rhan o'r elfen ariannu ac wedi'u hymgorffori yn yr achos busnes.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</p> <p>NODI Adroddiad Terfynol Cod Ymddygiad WASPI.</p>		
RHAN 4 – MATERION I GLOI			
4.1	<p>Unrhyw Faterion Brys Eraill</p> <p>Nid oedd unrhyw faterion arall.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.2	<p>Eitemau ar gyfer Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd i'r Bwrdd</p> <p>Nodwyd yr eitemau i'w cynnwys, os ydynt yn briodol ar gyfer y fforwm cyhoeddus, yn Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd ar gyfer Bwrdd SHA ym mis Tachwedd fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trafodaeth ar brofi treiddiadau • Roedd proffil risg y Pwyllgor wedi lleihau • Y gwaith da a wnaed gan y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth ar WASPI a'r sefyllfa ariannu. 	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.3	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</p> <p>Cadarnhawyd mai dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol fydd 2 Mai 2024 am 1.00pm.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi